

Jeremy Miles AS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

12 Awst 2021

Annwyl Jeremy,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Cymwysterau Proffesiynol

Byddwch yn ymwybodol bod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Cymwysterau Proffesiynol wedi'i gyfeirio'n ffurfiol i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad graffu arno, ac y gofynnwyd i ni gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 30 Medi.

Yng nghyd-destun y terfyn amser hwn, ac yn sgil y pryderon a nodir yn y Memorandwm a'ch safbwynt presennol na fyddwch yn argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r darpariaethau perthnasol yn y Bil, mae nifer o faterion yr hoffwn eu trafod â chi ar hyn o bryd.

1. Cyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 12 Mai 2021. Ni osodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol tan 17 Mehefin 2021, tua phum wythnos yn ddiweddarach. Mae Rheol Sefydlog 29.2(i) yn ei gwneud yn ofynnol i Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol o'r fath gael ei osod fel arfer heb fod yn hwyrach na phythefnos ar ôl cyflwyno'r Bil. A allwch roi rhesymau dros yr oedi y tro hwn?
2. Ym mharagraff 30 o'r Memorandwm, rydych yn nodi: "Nid yw Llywodraeth Cymru wedi'i argyhoeddi bod angen y mwyafrif o'r mesurau yn y Bil."
 - a. Beth oedd rôl Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu'r Bil?
 - b. Pryd wnaethoch ddechrau cyfrannu at ddatblygiad y Bil?
 - c. Sut y byddech yn disgrifio'r cysylltiadau rhynglywodraethol wrth ddatblygu'r Bil hwn?
 - d. Pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi'i hargyhoeddi bod angen "y mwyafrif" o'r mesurau yn y Bil?
 - e. Pa ddarpariaethau sydd eu hangen ym marn Llywodraeth Cymru, a pham?



3. Ym mharagraff 41 o'r Memorandwm, rydych yn nodi: "ni fydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i argymhell y dylid rhoi cydsyniad oni chaiff y Bil ei ddiwygio'n sylweddol er mwyn ateb ein pryderon sylweddol."
 - a. Pa welliannau penodol i'r Bil yr ydych wedi gofyn amdanynt?
 - b. Beth yw statws presennol eich trafodaethau â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r newidiadau i'r Bil y bydd eu hangen cyn y byddech yn argymhell rhoi cydsyniad?
 - c. Os na ofynnwyd am welliannau penodol, pa newidiadau i'r Bil y byddai eu hangen er mwyn mynd i'r afael â'ch pryderon?
4. Ym mharagraffau 32 i 35 o'r Memorandwm, rydych yn nodi sut, heb gydsyniad y Senedd na Gweinidogion Cymru, y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor yn gallu arfer pwerau i wneud rheoliadau i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol, gan gynnwys Deddfau gan y Senedd. A allwch gadarnhau, a ydych o'r farn y byddai'r pwerau yn y Bil yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006)?
5. Ym mharagraff 35, rydych yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi datgan nad yw'n bwriadu defnyddio pwerau cydredol yn y meysydd cymhwysedd datganoledig heb gytundeb y gweinyddiaethau datganoledig perthnasol.
 - a. Ble a phryd y gwnaeth Llywodraeth y DU y datganiad hwn?
 - b. A oes unrhyw drafodaethau wedi'u cynnal ynghylch cynnwys yr ymrwymiad hwn ar wyneb y Bil?
6. Ym mharagraffau 36 a 37 o'r Memorandwm, rydych yn nodi bod y Bil yn cynnwys cyfyngiad "sy'n unigryw i bwerau Gweinidogion Cymru", lle mae'r cyfyngiadau a osodir gan baragraffau 8 i 11 o Atodlen 7B i Ddeddf 2006 yn cael eu cyflwyno, i bob pwrpas, i'r broses gwneud rheoliadau.
 - a. Pa drafodaethau penodol yr ydych wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r cyfyngiad hwn ar arfer pwerau i wneud rheoliadau a roddir i Weinidogion Cymru?
 - b. Pa esboniad yr ydych wedi'i gael ynghylch pam y gosodir y cyfyngiad "unigryw" penodol hwn ar bwerau Gweinidogion Cymru?
 - c. Mae'r ddarpariaeth o dan sylw, sef cymal 14(5) o'r Bil, yn datgan na chaiff Gweinidogion Cymru wneud unrhyw ddarpariaeth gan ddefnyddio eu pwerau i wneud rheoliadau yn y Bil heb gydsyniad un o Weinidogion y Goron, os byddai angen cydsyniad un o Weinidogion y Goron ar gyfer darpariaeth o'r fath pe bai'n cael ei gwneud mewn Deddf gan y Senedd. A oes unrhyw beth y tu allan i baragraffau 8 i 11 o Atodlen 7B i Ddeddf 2006 a fyddai'n peri problem yn hyn o beth?
7. Ym mharagraff 38, rydych yn amlinellu amrywiaeth o bryderon polisi sy'n deillio o'r Bil. Mae un o'r pryderon yn ymwneud â chwmpas ac rydych yn dweud nad yw'r "diffiniad a ddefnyddir

gan y Bil yn diffinio cwmpas yn glir", ac nad ydych yn sicr a yw addysg bellach o fewn cwmpas y Bil.

- a. Pa ddiffiniad ydych yn cyfeirio ato?
 - b. Beth yw'r goblygiadau i Lywodraeth Cymru os yw addysg bellach o fewn cwmpas y Bil?
 - c. Os na chaiff y mater hwn ei ddatrys, sut y bydd hyn yn effeithio ar eich safbwynt o ran a fyddwch yn argymhell rhoi cydsyniad ai peidio?
8. Mae un o'r pryderon eraill a amlinellir ym mharagraff 38 yn ymwneud â sut y mae'r Bil yn cysylltu cymwysterau proffesiynol a pholisi masnach, ac rydych yn nodi y bydd hynny'n "lleihau pwerau Gweinidogion Cymru ymhellach oherwydd gallai penderfyniadau cael eu categoreddio'n benderfyniadau ynghylch 'masnach' yn hytrach na phenderfyniadau ynghylch 'cymwysterau proffesiynol' a chael eu gosod ar Gymru yn groes i Gonfensiwn Sewel." Rydych yn nodi ymhellach: "Er bod sicrwydd gan Weinidogion Llywodraeth y DU a chanllawiau cyhoeddedig yn nodi nad dyma'r bwriad, mae'n amlwg bod hon yn risg oherwydd y ffordd y mae'r Bil hwn wedi'i ddrafftio."
- a. Ble a phryd y rhoddodd Llywodraeth y DU y sicrwydd yr ydych yn cyfeirio ato yn y Memorandwm?
 - b. Ym mha ganllawiau cyhoeddedig y mae'n datgan nad yw Llywodraeth y DU yn bwriadu categoreiddio penderfyniadau perthnasol fel rhai sy'n ymwneud â masnach, yn hytrach na rhai sy'n ymwneud â chymwysterau proffesiynol?
 - c. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch cynnwys darpariaethau ar wyneb y Bil er mwyn rhoi effaith i'r "sicrwydd"?
9. O ran pryderon ariannol, rydych yn nodi ym mharagraff 38 y byddant "yn effeithio ar ystyriaethau cyllidebol Llywodraeth Cymru" ac y gallai'r sefyllfa "effeithio, yn y pen draw, ar gostau i Lywodraeth Cymru". A allwch egluro'r effaith ariannol bosibl ar Lywodraeth Cymru a sut y mae'r costau'n berthnasol i'r rhai a nodwyd ar gyfer rheoleiddwyr datganoledig (fel y'u nodir ym mharagraff 39)?

Byddwn yn croesawu ymateb gennych erbyn 8 Medi, er mwyn iddo lywio ein trafodaeth ynglŷn â'r Memorandwm yn ein cyfarfod ar 13 Medi.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies

Cadeirydd